ATLANTA

Swn tyrfe yn y pellter
Daw'r glaw cyn ddaw y nos
A ddoi di i fy mreichiau
Fy ngeneth dyner dlos
Mae dy lygaid clir yn dangos
Fod rhywbeth bach o'i le
O gad im leddfu'th ddicter
Cyn gadael yr hen dre.

Paid gofyn imi ddilyn
I ymadael â phob dim
Daw blodau y magnolia
Cyn hir i goed y glyn
Mae fy mywyd yma bellach
A'm heinioes yn y tir
Ac er it ddwyn fy nghalon
Ni allu ddwyn fy nghur.

Mae'r teulu oll yn gorwedd
Yn dawel dan y ddol
A'u chwerthin llon ond atgof,
Ond atsain ar eu hol
Mae'r gwlith yn ddagrau arian
Yn ddisglair ar y rhos
A minai yma'n disgwyl
Yn oer, yng ngwres y nos.

Mae'r fflamiau yn codi o amgylch ein cartre
Mae'r tanau yn llosgi i lorio y fangre
Mae'r bryniau yn goch o amgylch Atlanta nawr
Daw'n nes yng ngwres y nos.

© Geraint Griffiths